| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD** | **1af Hydref 2020** |
| **TEITL** | **Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd** |
| **PWRPAS** | **Cymeradwyo a mabwysiadu Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2019/20 fel darlun clir, cytbwys a chywir o berfformiad y Cyngor yn ystod y cyfnod dan sylw.** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. Dyfrig Siencyn** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor** |

## 1 Cyflwyniad

1.1 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau er mwyn sicrhau gwelliant parhaus, a bod yn atebol amdano.

1.2 Rydym fel Cyngor wedi cyfarch y gofyniad hwn drwy gyhoeddi Cynllun sy'n amlinellu sut y byddwn yn gweithredu (Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023), ac yna'n adrodd ar gynnydd y Cynllun hwnnw trwy gyhoeddi Adroddiad Perfformiad Blynyddol.

1.3 Gofynnir i awdurdodau lleol gyhoeddi'r asesiad o'u perfformiad (yr Adroddiad Perfformiad) o fewn blwyddyn ariannol cyn 31 Hydref y flwyddyn ariannol ganlynol. Yn unol â'r gofynion, mae angen i'r Cyngor hefyd sicrhau fod cynnwys yr adroddiad yn rhoi darlun cywir, cytbwys a chlir o berfformiad y Cyngor.

1.4 Er mwyn cwrdd â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mae angen i ni adrodd ar yr hyn yr ydym wedi ei wneud i gyfrannu tuag at egwyddorion y Ddeddf ac yn benodol yr amcanion llesiant sydd wedi eu mabwysiadu gennym. O ganlyniad, fe welir bod yr amcanion llesiant y mae prosiectau a gwaith dydd i ddydd yr Adrannau yn cyfrannu tuag atynt wedi eu hamlygu yn yr adroddiad.

## 2 Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

2.1 Mae Cabinet y Cyngor wedi trafod Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2019/20 a welir yn **Atodiad 1** yn ei gyfarfod ar y 15fed o Fedi 2020, ac yn argymell bod y Cyngor yn mabwysiadu'r Adroddiad.

## 3 Ystyriaethau Perthnasol

3.1 Mae Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2019/20 wedi ei strwythuro er mwyn adlewyrchu fformat Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23. Yn y rhan gyntaf canolbwyntir ar berfformiad prosiectau Blaenoriaethau Gwella Cynllun y Cyngor tra mae'r ail ran yn edrych ar ein gwaith dydd i ddydd fesul Adran.

3.2 Mae’r adroddiad wedi ei baratoi yn seiliedig ar adroddiadau perfformiad unigol Aelodau’r Cabinet a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn.

3.3 Fel y flwyddyn ddiwethaf mae’r prif fesurau wedi eu cynnwys o fewn corff yr adroddiad fel eu bod yn rhan o gyfleu'r stori yn hytrach nag o fewn tabl mesurau ar wahân.

## 4 Camau nesaf ac amserlen

4.1 Yn dilyn mabwysiadu Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2019/20 gan y Cyngor byddwn yn trefnu i hysbysu’r cyhoedd a phartneriaid o’r adroddiad drwy gyfathrebu’r adroddiad a’r prif lwyddiannau mewn amrywiol ffyrdd.

## 5 Argymhelliad

5.1 Gofynnir i’r Cyngor gymeradwyo’r adroddiad fel adlewyrchiad cywir, cytbwys a chlir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2019/20, a’i fabwysiadu.

## 6 Barn y Swyddogion Statudol

**Barn y Swyddog Monitro**
Mae adroddiad ar berfformiad ac allbynnau Cynllun y Cyngor yn rhan o gyfundrefn llywodraethu priodol. Mae hefyd yn cyfarch dyletswydd y Cyngor i adrodd yn flynyddol ar berfformiad o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ac ar gyrhaeddiad yn erbyn yr Amcanion Llesiant fel y nodir yn yr adroddiad.

**Barn y Pennaeth Cyllid**
Rwyf wedi cydweithio gyda’r awdur i baratoi’r agweddau a ffigyrau ariannol sy’n yr Adroddiad Perfformiad a’i atodiadau, ac rwy’n cadarnhau cywirdeb y cynnwys perthnasol (mae’r ffigyrau ariannol yn gyson gyda’r Datganiad o Gyfrifon 2019/20). Roedd y Cyngor wedi cyflawni llawer ar ‘daith’ 2019/20 cyn yr argyfwng diweddar, tra’n isafu’r effaith niweidiol o doriadau grant y Llywodraeth, wrth gyflawni £29miliwn o arbedion dros y 5 mlynedd diwethaf (gweler tudalen 68).

## Atodiadau

Atodiad 1 – Adroddiad Blynyddol Cyngor Gwynedd 2019/20.